Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 3 Chwefror 2021

Microsoft Teams

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg):	Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Dr Dylan Foster Evans, Yr Athro Mererid Hopwood, Awen Iorwerth, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Yr Athro Gwynedd Parry, Yr Athro Eleri Pryse, Dr Prysor Williams
Aelodau (Sefydliad):	Judith Davies, Dr Gwenno Ffrancon, Penri James, Dr Paula Roberts, Dr Gwawr Taylor, Dr Catrin Haf Williams, Dr Huw Williams
Aelodau (Myfyrwyr):	Iwan Evans, Ela Jones, Lois Jones, Moc Lewis, Emyr Owen, Katie Phillips
Aelodau (Addysg Bellach):	Bryn Hughes Parry, Carys Swain
Yn bresennol:	Yr Athro Jerry Hunter, Gareth Pierce (Cadeirydd y Coleg)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr); Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd ac Ysgrifennydd); Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd); Delyth Ifan a Gwenllian Owen (Rheolwyr Academaidd); Nia Brown (Swyddog Llywodraethiant)
Ymddiheuriadau:	Owain Beynon, Dr James Gravelle, Llŷr Griffiths, Meri Huws, Rhian Jones, Dr Euryn Roberts, Llŷr Roberts, Daniel Tiplady

Eitem	**Prif bwyntiau trafod**	**Pwyntiau Gweithredu**	**Cyfnod amser**
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon. 1.2. Nodwyd llongyfarchiadau i'r Athro Elin Haf Gruffydd Jones ar ei phenodiad yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
2. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. 2.2. Eglurwyd bod rhai aelodau'n absennol am eu bod ynghlwm â ffug brawf asesiad ar-lein y Dystysgrif Sgiliau Iaith. 2.3. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.		
3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2020	3.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol gydag un cywiriad i Eitem 1.2 – nad oedd Dr James Gravelle yn Gadeirydd Cangen Prifysgol De Cymru.		
4. Materion yn codi	4.1. <u>Eitem 5: Cylch gorchwyl.</u> Adroddwyd bod y Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi derbyn a chymeradwyo'r newidiadau i gylch gorchwyl y Bwrdd Academaidd. 4.2. <u>Eitem 8.4: Crynhoad cynlluniau pynciol i'r canghennau.</u> Adroddwyd ar y bwriad i ddarparu crynhoad addas i'w rannu gyda'r canghennau ond nad oedd wedi'i gyflawni eto. 4.3. <u>Eitem 8.6: Adroddiad ar oblygiadau tymor hir y cynlluniau pynciol.</u> Adroddwyd bod yr adroddiad yn anghyflawn tan i ragor o ddata gael ei dderbyn gan rai sefydliadau. 4.4. <u>Eitem 10: Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi.</u> Nodwyd cofnodion cyfarfod 17 Tachwedd 2020. Adroddodd yr Athro Jerry Hunter ar agweddau o'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) gan gynnwys achosion effaith. Adroddwyd y bydd *Gwerddon* (rhifyn 32) yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth.		
5. Diweddariad ar brosiect cenedlaethol adnoddau dysgu cyfunol cyfrwng Cymraeg	5.1. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar waith y Coleg fel rhagarweiniad i'r prosiect. 5.2. Adroddwyd ar y cyfarfodydd cynllunio gyda'r prifysgolion a chadw cyswllt gyda'r canghennau.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	5.3. Adroddwyd yr ymddengys bod y nifer o Ysgoloriaethau a ddyfarnwyd eleni yn arddangos bod y niferoedd sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros yn gyson. 5.4. Adroddwyd ar y Maniffesto a gylchredwyd i wleidyddion a llunwyr polisi ar ddiwedd 2020 sy'n nodi blaenoriaethau'r Coleg ar gyfer y sector ôl-orfodol tan 2025; a bod y gyllideb wedi'i gynllunio ar y dybiaeth y bydd y Coleg yn derbyn cyllideb debyg i 2020/21. 5.5. Cyflwynwyd diweddariad ar brosiect cenedlaethol adnoddau dysgu cyfunol cyfrwng Cymraeg gan yr Ysgrifennydd. Eglurwyd bod cais y Coleg i gronfa adfer y Cyngor Cyllido (HEFCW) wedi'i ymgorffori i gais ar draws y sector a bod £420,000 wedi'i ddarparu i ran y Coleg o'r prosiect, ac yn dilyn ymgynghori gyda'r sector bydd yn canolbwyntio ar feysydd Gwyddorau Cymdeithasol, Seicoleg, Gwyddorau Chwaraeon, Astudiaethau Busnes a'r Gyfraith 5.6. Yn ystod y drafodaeth nodwyd: • bod y cyllid yn talu am amser i ryddhau staff i greu adnoddau ac i'w wario cyn diwedd tymor yr haf. • bod lles cyhoeddus yn dod yn rhan o bolisi economaidd llywodraeth a bod angen cyfrannu at ddiffiniad yng nghyd-destun addysg Gymraeg. Nodwyd bod gwerth cyhoeddus yn greiddiol i weledigaeth Ysgol Busnes Caerdydd. • bod maes Iechyd yn cael ei ariannu gan HEIW (Addysg a Gwella Iechyd Cymru) ac felly ddim yn rhan o'r prosiect. • bydd modd adeiladu ar y strategaeth academaidd yn sgil y prosiect hwn yn y dyfodol.		
6. Y sefyllfa bresennol	6.1. Cyflwynwyd sylwadau gan y myfyrwyr a'r canghennau a chafwyd trafodaeth gyffredinol ar y sefyllfa bresennol.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
Ar y pwynt hwn cyrhaeddodd yr Athro Eleri Pryse a Dr Huw Williams ac ymadawodd Bryn Huhghes Parry a Lois Jones y cyfarfod	6.2. Adroddwyd ar: • lwyddiant addysgu ar-lein trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg • prinder tiwtoriaid personol cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr (mesurwyd hyn drwy holiaduron) • llwyth gwaith staff a sgil-effaith hynny ar yr agwedd fugeiliol • rhinweddau byw mewn llety Cymraeg o ran cynnal cymuned • cyfleoedd i fyfyrwyr gyfarfod yn anffurfiol wedi'u trefnu ond bod presenoldeb yn amrywio – rhai achosion o bresenoldeb gwaeth a gwell • gor-lwyth o ohebiaeth e-byst i fyfyrwyr • bwysigrwydd seminar 'byw' yn dilyn darlithoedd sydd wedi'u recordio o flaen llaw 6.3. Yn ystod y drafodaeth nodwyd: • aeddfedrwydd y myfyrwyr am addasu ac ymdopi cystal gyda'r sefyllfa bresennol • bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth ynghylch iechyd meddwl a bod cymorth proffesiynol ar gael i gynorthwyo myfyrwyr • adnodd o'r Porth Adnoddau ar gyfer cefnogi myfyrwyr wrth gyflwyno gwaith ysgrifenedig (rhannwyd dolen yn ystod y cyfarfod) • bod sesiynau adolygu wedi'u darparu i fyfyrwyr meddygaeth cyfrwng Cymraeg a bod y presenoldeb wedi bod yn well nag erioed gan eu bod ar-lein • heriau marchnata a recriwtio myfyrwyr pan nad oes modd ymweld â champysau 6.4. Ar ddiwedd y drafodaeth nodwyd y dylid ystyried yr angen i addasu'r profiadau cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
7. Cyfarfod Blynyddol y Coleg	7.1. Nodwyd y bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Coleg (y Llys) yn cwrdd yn rhithiol ar 16 Mawrth 2021. Bydd y Cynulliad Blynyddol yn dilyn y cyfarfod. 7.2. Nodwyd mai Iwan Evans sydd wedi'i enwebu i gynrychioli'r myfyrwyr. 7.3. Nodwyd nad oedd enwebiad wedi'i dderbyn gan gorff staff y Coleg erbyn y dyddiad cau ar 25 Ionawr a gwnaed cais am aelod i wirfoddoli.		
8. Talu teyrnged i Dr Hefin Jones	8.1. Cyflwynwyd sawl teyrnged i Dr Hefin Jones ar achlysur ei gyfarfod olaf fel Cadeirydd y Bwrdd Academaidd am fod ei dymor fel aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg yn dod i ben wedi deng mlynedd. 8.2. Adroddwyd ar ei frwdfrydedd dros addysg ac ymchwil cyfrwng Cymraeg; ei arweiniad deallus ynghylch safonau academaidd; ei rwydweithio cyson a'i ofal bugeiliol dros staff a myfyrwyr. 8.3. Cyflwynwyd englyn gan yr Athro Mererid Hopwood: Wyt athrylith glew, wyt ddewin - y gŵr all droi gwg yn chwerthin wyt ddyn a brawd, wyt ddawn brin, wyt afiaith, mwy, wyt Hefin.		
9. Dyddiad y cyfarfod nesaf	9.1. Nodwyd y dyddiad canlynol: • 12 Mai 2021		